Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

7. Dod o hyd i arian a'i gael

7.4.9 Ffynonellau ariannu ar gyfer prosiectau'r celfyddydau

Trosolwg

Mae'r daflen wybodaeth hon yn rhoi manylion am ffynonellau ariannu i fudiadau gwirfoddol sy'n ymwneud â phrosiectau'r celfyddydau. Mae'r manylion cysylltu yn y daflen hon wedi'u rhoi fel arweiniad cyffredinol, a bydd y rhai sydd wedi'u rhestru'n gallu rhoi gwybodaeth fwy manwl i chi. Bydd eich cyngor gwirfoddol sirol (CGS) lleol hefyd yn gallu'ch helpu i ddod o hyd i ffynonellau ariannu i fodloni'ch anghenion.

Cyngor Celfyddydau Cymru

Cynllun Grantiau Cyfalaf

Cronfa ar gyfer adeiladau a chyfarpar i'r celfyddydau'n bennaf ond gall roi cymorth hefyd ar gyfer celfyddyd gyhoeddus, astudiaethau dichonoldeb a gwaith datblygu. Mae 'Grant Bach Cyfalaf' ar gael hefyd ar gyfer prosiectau sy'n werth rhwng £2,000 a £10,000.

Dyfarniadau Cymru Greadigol (£5,001 i £12,000)

Arian ar gyfer artistiaid proffesiynol, gyda'r bwriad o helpu artistiaid i wireddu eu potensial a pherffeithio eu sgiliau ac adnewyddu partneriaethau creadigol. Un o amcanion eraill y dyfarniadau yw galluogi artistiaid i dreulio amser i ffwrdd o'u hymrwymiadau arferol er mwyn canolbwyntio ar ddatblygu eu gwaith.

Dyfarniadau Cymru Greadigol Mawr (£20,000 i £25,000)

Yn ogystal â'r uchod, mae'n ofynnol i artistiaid ddangos cyflawniadau a chyfraniadau cyson yn eu maes ymarfer proffesiynol yng Nghymru.

Noson Allan – Cynllun Teithio Cymunedol

Pwrpas y cynllun hwn yw helpu grwpiau a mudiadau cymunedol i gynnal perfformiadau proffesiynol byw heb gael y risg ariannol arferol.

Cynllun Casglu Principality

Mae'r cynllun hwn, sy'n cael ei redeg gan Gyngor Celfyddydau Cymru a'i gefnogi gan Gymdeithas Adeiladu'r Principality, yn cynnig benthyciadau di-log o hyd at £2,000 i aelodau o'r cyhoedd sy'n dymuno prynu gweithiau celfyddyd a chrefftwaith cyfoes gan orielau yng Nghymru sy'n cymryd rhan yn y cynllun.

Grantiau Cynhyrchu

Mae grantiau rhwng £5,001 a £20,000 ar gael, sydd â'r amcan o helpu artistiaid i greu cynnyrch artistig newydd drwy gydweithio â chyrff sy'n bartneriaid newydd iddynt a fydd yn cyflwyno eu gwaith yng Nghymru.

Grantiau Prosiect

Mae grantiau rhwng £250 a £5,000 ar gael, i roi cyfle i unigolion ymchwilio i syniadau am brosiectau neu feithrin eu galluoedd creadigol, artistig a phroffesiynol.

Cyllid Refeniw

Mae unrhyw ystyriaeth ynghylch darparu cyllid refeniw i fudiadau'n dibynnu ar y setliad ariannol blynyddol a gaiff y Cyngor gan Lywodraeth y Cynulliad a hefyd ar y graddau y mae gwaith y mudiad yn cydweddu â blaenoriaethau strategol Cyngor Celfyddydau Cymru. Anogir mudiadau i gofrestru eu diddordeb mewn sicrhau cyllid gyda swyddfa ranbarthol Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer eu hardal.

Manylion cysylltu: Cyngor Celfyddydau Cymru, 9 Stryd yr Amgueddfa, Caerdydd CF10 3NX
Ffôn: 029 20 37 6500
Ffacs: 029 20 22 1447
www.artswales.org

Academi

Academi yw asiantaeth genedlaethol Cymru ar gyfer hyrwyddo llên a'r gymdeithas i awduron, ac mae'n cynnig nifer o gyfleoedd fel a ganlyn:

Awduron ar Daith

Mae'n rhoi cymorth ariannol i awduron sy'n arfer eu crefft gael ymweld ag ysgolion, llyfrgelloedd, tafarnau, clybiau, cymdeithasau, canolfannau cymunedol, gwyliau celfyddydol a chanolfannau eraill ledled Cymru. Dyma'r cynllun ariannu hynaf a symlaf ym Mhrydain ar gyfer digwyddiadau llên. Gall Academi ariannu hyd at 50% o gostau digwyddiadau llenyddol priodol.

Preswylfeydd Awduron

Mae'r cynllun hwn yn galluogi trefnwyr i gynllunio rhaglenni mwy cynhwysfawr i gysylltu awduron â grwpiau cymunedol o bob math. Mae'r cynllun yn helpu i ariannu cyfnodau hir o waith gan un neu ragor o awduron mewn un lle neu ar un prosiect. Gellir eu cynnal mewn clwstwr o ysgolion, mewn clybiau ieuenctid neu lyfrgelloedd, mewn grwp o ganolfannau dydd neu gartrefi hen bobl, etc.

Cymorth Rhaglennu

Cynigir cymorth ariannol i drefnwyr digwyddiadau llenyddol sy'n ymwneud â rhaglennu mewn canolfannau, gwyliau neu gyfresi o ddigwyddiadau. Mae wedi'i anelu at reolwyr canolfannau sy'n awyddus i greu slotiau tymor hir rheolaidd ar gyfer llenyddiaeth yn eu hamserlen; at drefnwyr gwyliau celfyddydol; at weithredwyr sy'n rhedeg teithiau llenyddol; ac at entrepreneuriaid llenyddol eraill sy'n awyddus i hybu digwyddiadau llenyddol ar raddfa fwy na'r rhai y gellir eu hariannu fel arfer dan delerau'r cynllun *Awduron ar Daith*.

Gwasanaeth Datblygu i Awduron

Mae'n rhoi asesiad o waith awduron i'w helpu i feithrin eu sgiliau. Rhaid talu ffi fach.

Bwrsarïau Awduron

Fe'u rhoddir i helpu awduron sy'n creu gwaith newydd yn y *genres* canlynol: nofelau, straeon byrion, barddoniaeth, beirniadaeth lenyddol a rhyddiaith ffeithiol ac iddi werth llenyddol. Gellir ystyried mathau eraill o ysgrifennu nad ydynt yn ffitio'n dwt i'r categorïau hyn.

Manylion cysylltu: Academi, Trydydd llawr, T^y Mount Stuart, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd CF10 5FQ.
Ffôn: 029 20 47 2266
Ffacs: 029 20 49 2930
post@academi.org
www.academi.org

Cywaith Cymru - Artworks Wales

Cywaith Cymru - Artworks Wales yw'r corff cenedlaethol ar gyfer celfyddyd gyhoeddus yng Nghymru. Mae'n rhoi cymorth i osod gweithiau celfyddydol yn yr amgylchedd drwy gomisiynau, arddangosfeydd a phreswylfeydd.

Rhaglen Artistiaid Preswyl

Rhaglen sydd wedi'i hariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru yw hon sy'n cynorthwyo mudiadau sy'n dymuno cydweithio gydag artist am gyfnod o chwe wythnos o leiaf a gall gynnig hyd at 50% o gostau'r prosiect.

Manylion cysylltu: Cywaith Cymru - Artworks Wales, 11 - 12 Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd CF10 5EE.
Ffôn: 029 20 48 9543
info@cywaithcymru.org
www.cywaithcymru.org

Cyngor Ffilm y DU

Cyngor Ffilm y DU yw'r asiantaeth strategol ar gyfer ffilm yn y DU, a gefnogir gan y Llywodraeth. Ei brif nod yw symbylu diwydiant a diwylliant ffilm bywiog, cystadleuol a llwyddiannus yn y DU, a hyrwyddo'r mwynhad a'r ddealltwriaeth ehangaf posibl o sinema yn holl wledydd a rhanbarthau'r DU. Mae'r Cyngor yn cynnig nifer o gyfleoedd ariannu fel a ganlyn:

Cinema Extreme

Mae'r Gronfa Sinema Newydd a FilmFour yn cydariannu Cinema Extreme, sy'n gynllun sydd â'r amcan o arloesi ym maes adrodd storïau sinematig. Yn ddiweddar, bu'r cynllun yn gweithredu ar ffurf rhaglen ddatblygu a oedd yn cynnwys proses gomisiynu dreigl a bydd y Gronfa Sinema Newydd a FilmFour yn comisiynu o leiaf bedair ffilm drwyddi.

Cronfa Gwblhau

Mae'r gronfa hon yn rhan o raglen y Gronfa Sinema Newydd i alluogi cynhyrchwyr a chyfarwyddwyr i arloesi'n greadigol, meithrin doniau newydd a buddsoddi mewn ffilmiau byr sy'n amlygu syniadau unigryw a dull gweithredu arloesol.

Cronfa o £50,000 yw hon i hyrwyddo ffilmiau byr sydd wedi'u saethu lle nad oes arian i'w cwblhau.

Cronfa Ddatblygu

Mae'r Gronfa Ddatblygu yn ceisio hybu ansawdd, amrywiaeth ac uchelgais prosiectau ffilm ym Mhrydain a'r doniau sy'n cael eu meithrin. Yn fwy penodol, y nod yw gwella ansawdd sgriptiau ffilm a gynhyrchir yn y DU neu o'r DU drwy gynlluniau datblygu sydd wedi'u targedu.

Ffilmiau Byr Digidol

Mae'r gronfa hon yn galluogi gwneuthurwyr ffilmiau i gynhyrchu ffilmiau byr arloesol ac mae'n cael ei rhedeg mewn partneriaeth ag asiantaethau penodedig ym mhob gwlad a rhanbarth yn y DU. Sgrin Cymru yw'r asiantaeth bartneriaeth sy'n gyfrifol am ddosbarthu cyllid yng Nghymru.

Y Gronfa Sinema Newydd

Mae'r Gronfa Sinema Newydd yn hybu syniadau unigryw, dulliau arloesol a lleisiau newydd. Bwriad y gronfa yw ariannu ffilmiau sydd ag angerdd ac afiaith sy'n apelio at ystod eang o gynulleidfaoedd ac mae ymrwymiad arbennig o gryf i hybu gwaith yn y rhanbarthau a gwaith gan bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig eraill.

Cronfa Premiere

Mae Cronfa Premiere yn ceisio cyfuno'r hyblygrwydd, y weledigaeth, yr egni a'r entrepreneuriaeth a gysylltir fel arfer â sector preifat y diwydiant drwy fuddsoddi mewn ffilmiau nodwedd poblogaidd sy'n fasnachol ddichonadwy. Amcan allweddol arall sydd yr un mor bwysig yw creu mwy o arbenigedd a phrofiad yn niwydiant ffilm y DU drwyddo draw drwy fuddsoddi mewn ffilmiau penodol, a thrwy hynny chwarae rhan allweddol wrth hybu datblygiad busnesau ffilm cynaliadwy ym Mhrydain a fydd yn gallu tyfu yn y tymor hir.

Cronfa Argraffu a Hysbysebu

Mae'n cynnig cymorth i ddosbarthwyr i wneud printiau ychwanegol o ffilmiau arbenigol na fyddent ond i'w gweld mewn nifer cyfyngedig o fannau ledled y DU fel arall, ac i'w hysbysebu.

Manylion cysylltu: UK Film Council
10 Little Portland Street, Llundain W1W 7JG
Ffôn: 020 7861 7861
Ffacs: 020 7861 7862
info@ukfilmcouncil.org.uk
www.ukfilmcouncil.org.uk

Cronfa Sgiliau Ffilm Skillset

Mae Cronfa Sgiliau Ffilm Skillset yn rhoi cymorth i weithredu'r strategaeth sgiliau ffilm A Bigger Future. Mae'r gronfa'n cynnig grantiau hyfforddi i unigolion, cwmnïau a darparwyr hyfforddiant sy'n dymuno derbyn neu ddarparu hyfforddiant galwedigaethol sy'n ymwneud yn benodol â ffilm. Gallai gweithwyr proffesiynol yn y diwydiant ffilm sy'n dymuno mynd ar gyrsiau hyfforddiant a chyrff sydd am redeg cynllun hyfforddiant penodol ym maes ffilm fod yn gymwys i gael cefnogaeth gan Gronfa Sgiliau Ffilm Skillset, os byddant yn dangos bod arnynt angen cymorth.

Manylion cysylltu: Skillset, Prospect House, 80 - 110 New Oxford Street, Llundain WC1A 1HB
Ffôn: 020 7520 5757
Ffacs: 020 7520 5758
info@skillset.org
www.skillset.org

Sefydliad y Gymdeithas Hawliau Perfformio

Mae grantiau ar gael drwy nifer o raglenni sydd â'r amcan o wella dealltwriaeth a gwerthfawrogiad y cyhoedd o gerddoriaeth newydd ac i hybu, hyrwyddo a chynnal y broses o greu a pherfformio cerddoriaeth o bob math ac ar bob lefel gweithgarwch.

Manylion cysylltu: Performing Rights Society Foundation, 29 - 33 Berners Street, Llundain, W1T 3AB
Ffôn: 020 7306 4044
Ffacs: 020 7306 4814
www.prsfoundation.co.uk

Y Cyngor Prydeinig

Os ydych yn artist sy'n creu gwaith gweledol sy'n byw yn y DU, mae'n bosibl y bydd y Cyngor Prydeinig yn gallu rhoi cymorth i chi at dalu'r costau am gludo gwaith i arddangosfa mewn oriel mewn gwlad dramor. Mae'r cynllun yn un cystadleuol ac fe'i gweinyddir gan yr Adran Celfyddydau Gweledol dan arweiniad Pwyllgor Cynghori'r Celfyddydau Gweledol a Chyfarwyddiaethau'r Cyngor Prydeinig dramor. Nid yw'r cynllun hwn yn agored i artistiaid sy'n arddangos eu gwaith yn y DU.

Manylion cysylltu: The British Council Arts Group, 10 Spring Gardens, Llundain SW1A 2BN
Ffôn: 020 7389 3194
Ffacs: 020 7389 3199
artweb@britishcouncil.org
www.britishcouncil.org

Sefydliad Henry Moore

Mae'r Sefydliad yn cefnogi amrywiaeth fawr o brosiectau a gweithgareddau ym maes y celfyddydau gweledol, gyda phwyslais ar gerflunwaith. Rhai o'r meysydd sydd wedi'u cynnwys yw bwrsarïau myfyrwyr, cymrodoriaethau i artistiaid a grantiau i sefydliadau celfyddydol, orielau ac amgueddfeydd. Rhai o'r prosiectau nodweddiadol yw arddangosfeydd, cyhoeddiadau, gweithiau comisiwn, cynadleddau, gweithdai a chyfresi darlithoedd.

Manylion cysylltu: The Henry Moore Foundation, Dane Tree House, Perry Green, Much Hadham, Hertfordshire, SG10 6EE
Ffôn: 01279 843333
Ffacs: 01279 843647
info@henry-moore-fdn.co.uk
www.henry-moore-fdn.co.uk

First Light Movies

Mae cronfa First Light Movies yn ariannu grwpiau o bobl ifanc rhwng 5 a 19 mlwydd oed drwy dri wahanol faes o gyllid.

May yna ddwy faes cyllid ar gael i gynhyrchu ffilmiau sef y *Pilot* a'r *Gwobr Stiwdio* ac hefyd help gyda ffilmiau newydd drwy wobr *What's the big idea*.

Mae First Light Movies yn gweithio ar draws y DU.

First Light Movies
Uned 6 Trydydd Llawr
The Bond
180 - 182 Fazeley Street
Birmingham
B5 5SE

Ffôn: 0121 7534866
info@firstlightmovies.com

Cronfa Cyfleoedd Rhyngwladol

Cronfa a weinyddir gan Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, sy'n bartneriaeth rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Prydeinig Cymru. Pwrpas y gronfa yw cymell artistiaid proffesiynol i ymchwilio i bartneriaethau posibl gyda golwg ar gydweithio yn y dyfodol, a chwblhau prosiectau cydweithredol, gydag artistiaid, cynhyrchwyr, cyflwynwyr neu hyrwyddwyr mewn gwledydd y tu allan i'r DU. Anaml y rhoddir cyllid o fwy na £3,000.

Manylion cysylltu: Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, 28 Parc y Plas, Caerdydd CF10 3QE
Ffôn: 029 20 38 3037
Ffacs: 029 20 39 8778
info@wai.org.uk
www.wai.org.uk

Visiting Arts

Mae Dyfarniadau Datblygu Prosiectau Visiting Arts yn agored i'r holl hyrwyddwyr a chanolfannau yn y DU sy'n hyrwyddo gwaith safonol o wledydd tramor sy'n cynnig golwg ar wlad benodol ac sy'n gallu dangos ei gyfraniad at feithrin ymwybyddiaeth ddiwylliannol a chysylltiadau diwylliannol o fewn y DU.

Manylion cysylltu: Visiting Arts, Bloomsbury House, 74-77 Great Russell Street, Llundain, WC1B 3DA
Ffôn: 020 7291 1601
Ffacs: 020 7291 1616
information@visitingarts.org.uk
www.visitingarts.org.uk

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.